# Y GWASANAETH ADDYSG:

# CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD

**Amser:** 8.30am – 10.30am
**Dyddiad:** 10 Mehefin 2020
**Lleoliad:** Gwahoddiad Microsoft Teams

## AGENDA DRAFFT

| Cyf | Eitem | Categori | Yn Arwain |
|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau a chroeso i'r FfCY | Eitem sefydlog | Cadeirydd |
| 2 | Cofnodion y cyfarfod blaenorol (11 Mawrth 2020) a materion yn codi: | Eitem sefydlog (papurau i ddilyn) | Cadeirydd |
| 3 | Diweddariad Cyffredinol ar Grantiau ar gyfer 2020/21 | Gwybodaeth a Thrafodaeth (cyflwyniad i ddilyn) | Neil Hardee, Rob Green |
| 4 | Goblygiadau Ariannol Covid 19 | Gwybodaeth a Thrafodaeth (papurau i ddilyn) | Neil Hardee, Rob Green |
| 5 | Diweddariad ar Gyllidebau Ysgolion – cau 19/20 a phennu cyllidebau 20/21 | Gwybodaeth a Thrafodaeth (papurau i ddilyn) | Neil Hardee, Rob Green |
| 6 | Cyllideb Adnewyddu Asedau 19/20 ac 20/21 | | Richard Portas |
| 7 | Diweddariadau - TGAC, Dileu Swyddi, CGG | Papurau i ddilyn | Rob Green |
| 6 | Unrhyw Fater Arall | Eitem sefydlog | Cadeirydd |

Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf - i'w cadarnhau

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /** This document is available in English

# Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

# COFNODION CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

**Amser:** 8.30am – 10.30am
**Dyddiad:** 10 Mehefin 2020
**Lleoliad:** Cyfarfod Microsoft Teams
**Yn bresennol:** Sarah Griffiths - Cadeirydd (SG), y Cyng. Sarah Merry, y Cyng. Chris Weaver, Mike Tate (MT), Richard Portas (RP), Rob Green (RG), Neil Hardee (NH), David Harris (DH), Angela Jardine (AJ), Andrew Skinner (AS), Nic Naish (NN), John Hayes (JH), Abigail Beacon (AB), Suzanne Williams (SW), Adrian Dinsmore (AD), Marc Belli (MB), Ann Griffin (AG), Jane Setchfield (JS), Mari Phillips (MP), David Silver (DS), Wayne Murphy (WM), Ivor Gittins (IG), Kevin Hart (KH), Tracey Stephens (TS), Jane Marchesi (JM), Diane Gill (DG), Sarah Parry (SP), Louise Bloom – Clerc (LB)

**Ymddiheuriadau:** Ian Allwood (IA), Nick Batchelar (NB), Cllr Joel Williams (JW), Sara Allen (SA), Karen Dell'Armi (KA), Catherine Power (CP), Patrick Brunnock (PB)

| Cyf | **Casgliadau/Camau Gweithredu** | **Pwy** |
|---|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau a chroeso** | |
| 1.1 | Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a derbyniodd ymddiheuriadau. | |
| 2 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi** | |
| 2.2 | Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2020 fel cofnod cywir. | |
| 2.3 | Materion yn codi<br><br>Eitem 3, Diweddariad Fformiwla:<br><br>Rhoddodd RG a Phil H | |

fel toriad.
Nid yw'r grant ADY wedi'i bennu ar gyfer gwaith pontio ac mae i'w ddefnyddio ar gyfer y pwysau presennol. Mae'r pwysau'n cynnwys lleoliadau y tu allan i'r sir, darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) a Thaliadau Gwella Anghenion Cymhleth.
Tynnodd KH sylw at arwyddion gan y Consortiwm y byddai rhywfaint o arian pontio ar gyfer ysgolion sy’n cael eu heffeithio'n andwyol gan gyfrifiadau'r Grant Amddifadedd Disgyblion.
Nododd MB fod y Consortiwm wedi bod mewn cysylltiad ag ysgolion.

Rhoddodd NH drosolwg o Arian EdTech yn 2020/21 a nododd:

Dyrannwyd £5m i Gaerdydd y llynedd o'r £50m ledled Cymru i adnewyddu'r seilwaith TGCh mewn ysgolion.
Mae'r pecyn seilwaith wedi'i greu ac ymgysylltwyd â chontractwyr i gwblhau gwaith dros yr haf. Mae hyn wedi'i oedi oherwydd rhagofalon COVID 19 ac mae swyddogion yn gweithio gyda’r adrannau CTY, Rheoli cyfleusterau ac Iechyd a Diogelwch i sicrhau amserlen newydd ar gyfer y gwaith sydd i'w wneud. Y bwriad yw gwneud gwaith dros yr haf ond nid yw hyn wedi'i gwblhau eto.
Roedd £1m o’r grant ar ôl; defnyddiwyd yr arian hwnnw i archebu 3,000 o Chromebooks a 1,367 o liniaduron  Gohiriwyd yr archeb oherwydd argyfwng COVID ac fe’i disgwylir yn ystod yr wythnosau nesaf.
Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau grant o £30m eleni ac £20m y flwyddyn nesaf ledled Cymru. Mae'r dyraniad ar gyfer Caerdydd wedi cynyddu'n gymesur oherwydd bod y dull dosbarthu wedi symud o nifer yr ysgolion i nifer y disgyblion. Nodir ffigur tybiannol o £3.488m ar gyfer Caerdydd yn 20/21, yn ogystal â hyn mae £1.2m (0.5%) wedi'i gadw o gyllidebau dirprwyedig, cadwyd £165,000 o'r grant Ôl-16 a chafodd £350,000 ei gario ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol (nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau eto) gan ddod â'r cyfanswm a gadwyd mewn cyllidebau cyfun i £1.7m.
Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi £3m ar gyfer dyfeisiau ar gyfer disgyblion sy’n ddigidol ddifreintiedig (pobl ifanc nad oes ganddynt fynediad at ddyfais gartref a/neu sydd heb Wi-Fi). Gofynnwyd i'r ALl weithio gydag ysgolion i ailbwrpasu dyfeisiau a'u dosbarthu i bobl ifanc sy’n ddigidol ddifreintiedig.  Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau contract gyda nifer o gwmnïau telathrebu i brynu dyfeisiau ‘dongle’ ar gyfer cysylltedd a rhai contractau tymor byr ar gyfer cysylltiadau band eang. Mae'r dyfeisiau'n cael eu ffurfweddu ar hyn o bryd i'w dosbarthu i'r bobl ifanc, mae 5,000 o ddyfeisiau a 1,500 o ddyfeisiau Wi-Fi wedi'u dosbarthu i ddisgyblion hyd yma.
Mae'r contractau band eang, a delir yn fisol gan Lywodraeth Cymru, wedi'u cyfyngu i hyd argyfwng COVID (dim penderfyniad eto). Mae
s
i ystyried cynnal cymorth ac maent wedi cytuno i barhau â'r strategaeth o roi cymorth ychwanegol i ddisgyblion sy’n ddigidol ddifreintiedig.
Byddai'r strategaeth hirdymor yn galluogi disgyblion i fanteisio ar ddysgu cyfunol gan allu cysylltu gartref. Ystyriwyd caffael contractau i gynnal y dyfeisiau Wi-Fi ac mae prisiau cystadleuol wedi’u rhoi ar gyfer pecynnau

drafod symud ymlaen.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae 2,500 o Chromebooks a 500 o iPads wedi'u harchebu a'u derbyn ar gyfer disgyblion sy’n ddigidol ddifreintiedig.<br><br>gyfer pob disgybl ar draws y ddinas. Gofynnodd NH i'r fforwm a ddylid ceisio arian ychwanegol i gyflawni'r nod hwn. Croesawodd yr Aelodau'r ddau. Nodwyd y byddai'r dyfeisiau'n parhau’n eiddo i'r Cyngor/ysgol; cânt eu benthyg at ddibenion dysgu ac mae ganddynt baramedrau penodol.<br>Gofynnodd NN a fyddai cefnogaeth trydydd parti yn cael ei dileu. Esboniodd NH fod swyddogion wedi gweithio'n agosach gyda chwmnïau preifat dros y deuddeg wythnos diwethaf ac mae eu cefnogaeth wedi bod yn amhrisiadwy. Caiff y cynnig i greu tîm canolog i gefnogi ysgolion ei adolygu a byddai model comisiynu yn cael ei ystyried. Ceisid cysondeb ar gyfer y dyfeisiau, y cymorth i ysgolion ac i blant a theuluoedd.<br>Tynnodd DS sylw at deuluoedd â nifer o blant yn cael trafferth am eu bod yn gorfod rhannu dyfais a chroesawodd yr awgrym.<br>Awgrymodd MB drefniant prydlesu i deuluoedd, i rieni a allai ei fforddio, brynu a thalu'n fisol a fyddai'n arbed arian i'r awdurdod.<br>Gan yr argymhellir bod staff ysgolion yn defnyddio dyfais a geir gan yr awdurdod yn hytrach na dyfais bersonol, y flaenoriaeth ar gyfer 20/21 yw sicrhau dyfeisiau digonol ar gyfer pob athro ym mhob ysgol yng Nghaerdydd. Cyflogir 3,238 o athrawon ar draws ysgolion Caerdydd, disgwylir i 1,367 o liniaduron gael eu dosbarthu yr wythnos nesaf a disgwylir i 1,565 o liniaduron eraill gael eu dosbarthu yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae nifer fach o ysgolion wedi rhoi dyfeisiau i'w hathrawon ac mae'r rheini wedi'u hystyried.<br>Mae perifferolion, gan gynnwys bagiau gliniaduron a chlustffonau, yn cael eu harchebu a'u rhoi i athrawon.<br>Cyn dosbarthu, bydd rheolwr rhwydwaith neu aelod addas arall o staff yn ffurfweddu dyfeisiau ysgolion uwchradd. Byddai cwmnïau sydd wedi ffurfweddu Chromebooks yn cael eu defnyddio i helpu i ffurfweddu dyfeisiau ysgolion cynradd, a fyddai wedyn yn cael eu dosbarthu i unigolion. Disgwylir i'r staff dderbyn eu gliniaduron erbyn diwedd y tymor.<br>Gofynnodd DG a oedd arian ar gyfer dysgu cyfunol o ansawdd uchel ac offer ychwanegol fel delweddwyr a chamerâu. Bydd NH yn codi hyn yng<br><br>offer ychwanegol y byddai ei angen ar ysgolion. | |
| | | Croesawodd MT y gefnogaeth a'r awydd a fynegwyd yn gyffredinol ar gyfer dysgu cyfunol, fyddai o fudd i addysgu yn y presennol a'r dyfodol. Mae ysgolion wedi gwneud cynnydd da. Byddai ffocws parhaus ar ddatblygu dysgu cyfunol. Awgrymodd y dylai ysgolion ystyried eu gwariant ar elfennau eraill ac ailbwrpasu yn unol ag anghenion, h.y. gellid defnyddio arbedion llungopïo i brynu offer ychwanegol.<br>Tynnodd AJ sylw at staff sy'n cael problemau cysylltedd; nid oedd cysylltiadau'n gyson, yn enwedig os yw aelodau eraill o'r cartref yn defnyddio’r band eang ar gyfer pethau fel dysgu cydamserol.<br><br>gynnal arolygon staff. Byddai costau personol hefyd yn cael eu hystyried, y gellir ad-dalu rhai ohonynt neu y gellir adennill costau TAW ar eu cyfer. | NH<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>NH |

| | | |
|---|---|---|
| | Caiff canllawiau GDPR ar gyfer yr amgylcheddau presennol eu rhoi i ysgolion.<br>Dywedodd MB fod yr ysgol wedi datblygu canllaw dysgu o bell i staff a rhieni ac mae model dysgu rhyngweithiol ar fideo yn cael ei ddatblygu sy'n cynorthwyo athrawon sy'n addysgu eu plant eu hunain. Mae'r model yn hybrid rhwng addysgu cydamserol ac addysgu anghydamserol. Tynnodd sylw at y ffaith bod cysylltedd yn waeth mewn ardaloedd mwy gwledig yng Nghymru.<br>Tynnodd WM sylw at gymhlethdod dysgu cyfunol mewn ysgol arbennig. Rhoddodd NH sicrwydd y byddai ysgolion arbennig yn cael eu hystyried yn unigol, gan edrych ar y cyfleoedd dysgu a'r dyfeisiau sydd eu hangen ar gyfer dysgwyr a staff. | NH<br><br><br>NH |
| 4 | **Goblygiadau Ariannol COVID 19** | |
| 4.1 | Rhoddodd RG gyflwyniad ar effaith ariannol COVID 19.<br><br>Nododd fod effaith ariannol COVID 19 wedi bod yn sylweddol o ran mwy o wariant a llai o incwm. Wrth i ni symud i'r cam ailgychwyn, adfer, adnewyddu, mae angen adolygiad sylfaenol o strategaeth y gyllideb ynghyd ag asesiad o sut mae'r sefyllfa'n effeithio ar y strategaeth tymor canolig. Bydd y cabinet yn cyfarfod i ystyried adroddiad ar yr effaith ariannol ar 11 Mehefin.<br><br>Mae Cyngor Caerdydd yn hawlio am wariant ychwanegol yr eir iddo bob mis, rhoddir cymorth ar gyfer y cyfnod tan ddiwedd mis Mehefin 2020 a diwedd mis Awst ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim (PYADd). Mae nifer y bobl sy'n manteisio ar PYADd wedi cynyddu o 75% i 100% a bydd y ddarpariaeth yn parhau pan fydd ysgolion yn ailagor. Er bod arian wedi'i roi, nid yw'n glir a fydd hyn yn talu'r holl gostau a eir iddynt, mae cael arian gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn her sylweddol a disgwylir i’r angen hwn am arian barhau y tu hwnt i fis Mehefin 2020.<br><br>Mae swm sylweddol o incwm wedi’i golli gan nad yw gwasanaethau wedi gallu gweithredu fel arfer (Arlwyo, y Gwasanaeth Cerdd a gweithgareddau Awyr Agored). Er i’r adran Trafnidiaeth Ysgol arbed arian yn ystod y cyfnod hwn, disgwylir i gostau godi'n ddramatig o 29 Mehefin pan fydd ysgolion yn dychwelyd a phan fydd gweithdrefnau trafnidiaeth newydd yn cael eu mabwysiadu.<br><br>Gofynnodd KH a ystyriwyd rhoi mwy o gefnogaeth i ysgolion hyb sydd wedi gwario mwy o arian o gymharu ag ysgolion nad ydynt yn ysgolion hyb Cydnabu RG y ffaith y gallai ysgolion nad ydynt yn hybiau fod wedi arbed arian wrth fod ar gau ac mae hyn yn rhywbeth yr edrychir arno unwaith y bydd sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn pob ysgol yn hysbys. Gan fod ysgolion bellach wedi pennu eu cyllidebau byddai gwell dealltwriaeth o'r arbedion a wnaed a bydd swyddogion yn ystyried lliniaru unrhyw niwed i ysgolion hyb, ar hyn o bryd mae gormod o ansicrwydd. Byddai incwm wedi’i golli gan ysgolion trwy arlwyo a gosodiadau er enghraifft yn cael ei gynnwys yn yr ymgais i adennill colledion y Cyngor. Gellir lleihau colledion trwy roi staff ar ffyrlo. | |
| 5 | **Cyllidebau Ysgolion – cau 19/20 a phennu cyllidebau 20/21** | |

| | | |
|---|---|---|
| 5.1 | Diolchodd RG i ysgolion am eu diwydrwydd a'u gwaith caled wrth gwblhau cyllid diwedd y flwyddyn yn ystod argyfwng COVID. Oherwydd y cyfnod cloi, mae'n bosibl bod gwariant yn ystod yr wythnos ddiwethaf a rhywfaint o waith a gariwyd ymlaen i'r flwyddyn ariannol newydd wedi chwyddo rhwyfaint ar y balansau ysgolion a adroddwyd.<br><br>Nododd RG y canlynol:<br>Cynnydd bach cyffredinol yng nghyfanswm y balansau<br>Mae ysgolion uwchradd wedi symud i ffwrdd o ddiffyg y flwyddyn flaenorol i gyfanswm dros ben ar ddiwedd y flwyddyn, 31 Mawrth 2020.<br>Mae ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig wedi dangos gostyngiad cyffredinol | |
| 5.2 | <u>Balansau dros ben</u><br><br>O'r ysgolion y gorchmynnwyd iddynt wario yn 2018/19, roedd pedwar wedi lleihau eu balansau'n ddigonol erbyn diwedd y flwyddyn honno.<br>Cyfarfu swyddogion â thri ar ddeg o ysgolion yn 2019/20 i drafod eu sefyllfa, o'r rheiny, mae dau bellach o fewn y trothwy ac mae un ar ddeg yn dal i fod yn uwch na'r trothwy.<br>Yn gyntaf, byddai ysgolion yn cael cyfle i ddefnyddio'r balansau ac os byddai angen, gellid adfachu.<br>Yn 2019/20 gorchmynnwyd i saith ysgol arall wario, mae pedair bellach o fewn y trothwy, mae tri yn dal yn uwch na'r trothwy. Bydd swyddogion yn cyfarfod â'r tair ysgol i drafod eu balansau a byddent yn cydymdeimlo â'r amgylchiadau.<br>Mae chwe ysgol arall wedi rhagori ar y trothwy ar gyfer y drydedd flwyddyn a gorchymynnwyd iddynt wario yn ystod 2020/21. | |
| 5.3 | **<u>Pennu Cyllidebau</u>** | |
| 5.4 | Dywedodd RG fod naw ysgol yn debygol o fod mewn diffyg, chwe ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd; yn hanesyddol, mae tua deg ysgol yn pennu cyllidebau diffyg bob blwyddyn.<br><br>Ysgolion uwchradd oedd â chyllidebau diffyg y llynedd yn bennaf, eleni mae'r rhan fwyaf o'r cyllidebau diffyg gan ysgolion cynradd. Llwyddodd tair ysgol uwchradd oedd â diffygion ers amser hir i beidio â bod mewn diffyg eleni a gwnaethon nhw bennu cyllidebau cytbwys. Mae rhai ysgolion cynradd mewn diffyg am y tro cyntaf oherwydd niferoedd disgyblion. Mae natur y diffygion a'r rhagolygon ar gyfer adfer yn bryder, mae swyddogion yn parhau i ymgysylltu â'r ysgolion. | |
| 5.5 | <u>Ad-daliadau tripiau ysgol</u><br><br>Nododd y Cadeirydd bryderon ynghylch ad-daliadau ar gyfer tripiau ysgol. Cadarnhaodd MT fod angen cysondeb ledled Cymru a'i fod yn trafod â Llywodraeth Cymru. Trafodir yr eitem yng nghyfarfod arfaethedig CCAC ar 12 Mehefin a byddai diweddariad yn cael ei roi yn dilyn y cyfarfod.<br><br>Nododd RG fod rhai darparwyr tripiau'n awgrymu bod ysgolion yn hawlio trwy yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y Cyngor, ond nid yw hyn yn dod o fewn y | MT |

| | | |
|---|---|---|
| | cwmpas, byddai angen yswiriant teithio ar wahân. | |
| 5.6 | <u>Newidiadau i'r fformiwla</u><br><br>Nododd RG mai'r bwriad oedd adolygu'r fformiwla, yn enwedig mewn perthynas ag ADY a diwygio ar gyfer 2021/22, bydd swyddogion yn ystyried cyfleoedd i ymgynghori (o bosibl ddechrau'r hydref). Bydd RG yn trafod ymhellach gydag NH a Phil Hall. | RG, NH |
| 5.7 | Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau)<br><br>Dywedodd NH fod oedi o ran cyhoeddi CLGau oherwydd COVID. Byddai ysgolion a Chadeiryddion Llywodraethwyr yn cael eu hysbysu unwaith y byddant ar gael ar y wefan. | NH |
| 6 | **Cyllideb Adnewyddu Asedau 19/20 ac 20/21** | |
| 6.1 | Diolchodd RP i'r aelodau am y sylwadau cadarnhaol ar amddifadedd digidol a rhoddodd gyflwyniad ar Adnewyddu Asedau.<br><br>Nodwyd y canlynol:<br><br>Roedd yr alldro yn 2019/20 tua £8.5m yn erbyn cyllideb o £14.8m<br>O hyn derbyniwyd £4.1m gan Lywodraeth Cymru yn hwyr yn y flwyddyn ariannol<br>Ers hynny mae ailstrwythuro mewnol wedi digwydd<br>Tynnodd y Cadeirydd sylw at Gyflwr Asedau, gan nodi bod yr alldro o'i gymharu â'r gyllideb a bennwyd wrth adnewyddu asedau yn isel iawn ac nad oedd digon wedi'i wario arno yn y flwyddyn flaenorol. Defnyddiwyd cyllidebau ysgolion i ariannu'r gyllideb, heb wneud llawer o gynnydd.<br>Cydnabu RP yr her, gan roi sicrwydd bod rhaglenni'n cael eu gwella.<br>Mae gan adnewyddu asedau gyllideb o £7,890m yn 2020/21 a bydd tanwariant yn cael ei ychwanegu at y ffigur hwn.<br>Oherwydd rhagofalon COVID 19, mae rhaglen waith ar gyfer 2020/21 wedi'i blaenoriaethu mewn dau gam (dangosir isod). Gohiriwyd y rhaglen o waith flaenorol yn ystod y cyfnod cloi.<br><br><u>Cam 1</u><br>Dim ond gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio blaenoriaeth 1a (ADY a digonolrwydd yn bennaf)<br>Parhau â'r ymrwymiadau statudol o ran gwaith profi ac atgyweirio<br>Gwiriadau Legionella cyn i ysgolion agor<br>Clirio ôl-groniad o ymrwymiadau statudol ar sail risg cyn i ysgolion agor<br>Gofynion capasiti brys yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru<br><br><u>Cam 2</u><br>Mae rhaglen 20/21 yn cynnwys gwaith addasrwydd a chyflwr â blaenoriaeth<br>Mae'r targed ar gyfer rhaglen 20/21 yn uwch na'r gyllideb, ond bydd gwaith cyfyngedig yn ystod yr haf<br>Caiff gwaith a gariwyd ymlaen o 19/20 ei gynnwys yn rhaglen 20/21 | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ailymgysylltir â staff a roddwyd ar ffyrlo.<br>Mae profion statudol yn parhau lle mae ysgolion ar agor, mae ôl-groniad ar gyfer ysgolion a gaewyd.<br>Cyflawnir gwaith â blaenoriaeth cyn ôl-groniadau cyflwr<br>Gwneir gwaith arolygu a dylunio yn 2020/21 er mwyn gweithredu yn 2021/22.<br>Nododd RP fod y rhan fwyaf o blaid terfynu'r gronfa hapddigwyddiadau gydag arian yn cael ei ddosbarthu'n ôl i ysgolion mewn ffordd deg, mae gan y gronfa tua £700,000. Mae angen mwy o fanylion er mwyn osgoi effeithio ar ysgolion llai cyn dosbarthu'r arian.<br>Fel rhan o'r ailstrwythuro, bydd RP yn ymweld â phob ysgol i egluro sut y bydd y dull asedau'n cael ei weithredu.<br>Bydd ysgolion yn defnyddio'r system Un Drws Ffrynt i roi gwybod i'r Cyngor am yr holl waith arfaethedig ar eu hadeiladau. Gallant hefyd wneud, olrhain neu ddiweddaru ceisiadau am waith brys drwy'r system.<br>Roedd llythyr ynghylch yr arolwg cyflwr ysgolion, a gyhoeddwyd cyn y cyfnod cloi, yn amlinellu'r gefnogaeth i ddatblygu cynllun cynnal a chadw ataliol blynyddol ar gyfer pob ysgol, gan gynnwys ymrwymiad pum mlynedd i adnewyddu asedau gyda'r gwaith ysgol gofynnol.<br>Byddai'r rhaglen flynyddol yn cael ei dosbarthu er mwyn sicrhau tryloywder.<br>Gwahoddwyd safbwyntiau ar y Gronfa Hapddigwyddiadau<br>Mae'r weithdrefn Ymateb Brys yn cael ei hadolygu, yn enwedig mewn perthynas â gwaith yswiriant. Cynigir bod gwaith yn cael ei wneud gan y SOP a bod arian yn cael ei adennill yn ddiweddarach.<br>Mae cynlluniau Ynni LED a Solar PV ar y gweill<br>Mae adnodd ychwanegol yn cael ei ddatblygu ar gyfer rheoli ynni, ac erbyn hyn mae gan y tîm gwasanaethau adeiladau reolwr ynni sy'n rhoi cysondeb i'r gwaith a wneir.<br>Bydd y Llawlyfr Adeiladau Ysgolion yn cael ei adolygu.<br><br>Llawlyfr Adeiladau Ysgolion. Croesawodd RP y syniad o gynnwys penaethiaid a llywodraethwyr ysgol.<br>Gofynnodd NN am restr o ysgolion yn manylu ar y gwaith i'w wneud; gan dynnu sylw at y ffaith y rhannwyd gwybodaeth bob tymor yn flaenorol.<br>Dywedodd RP y byddai'r wybodaeth yn cael ei dosbarthu unwaith y bydd capasiti ychwanegol i ysgolion, mewn perthynas â COVID 19, wedi'i ychwanegu.<br>Gofynnodd DH am sicrwydd ynghylch y gallu i gwblhau ymrwymiadau statudol a gofynnodd a oedd costau a goblygiadau ychwanegol a allai fod yn disgyn ar gyllidebau ysgolion unigol. Cadarnhaodd RP nad oedd capasiti yn broblem ar hyn o bryd ac ni ddisgwylir i gostau effeithio ar gyllidebau ysgolion.<br>Gofynnodd AS i arolygon cyflwr ysgolion fod ar gael. Dywedodd RP y byddai angen egluro'r cyd-destun i ysgolion yn unigol oherwydd amodau sydd wedi newid, mae angen arolygon manylach. Mynegodd AS bryderon am yr oedi, gan nodi y dylid nodi cynhwysiadau ac eithriadau mewn adroddiadau er mwyn i ysgolion fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau. | RP<br><br>RP<br><br>RP |
| 7 | **Dileu Swyddi, TGAC, CGG** | |

| | | |
|---|---|---|
| 7.1 | <u>Dileu Swyddi</u> | |
| 7.2 | Nododd RG y gwariant terfynol o £1.230 yn 2019/20, gorwariant y gellid ei amsugno yn hytrach na'i adfachu. Cedwir cyllideb o £1m ar gyfer 20/21 a byddai'n cael ei hadolygu'n barhaus.<br><br>Gofynnodd AJ a fyddai diswyddo gwirfoddol ar gael i athrawon a staff cymorth nad oeddent am ddychwelyd i'r gwaith oherwydd y sefyllfa bresennol. Awgrymodd ystyried diswyddo person gan symud person arall i swydd y person hwnnw yn y flwyddyn academaidd sy'n dod, er mwyn cydbwyso colled ar draws yr awdurdod drwy ganiatáu i staff ddiswyddo'n wirfoddol. Roedd Adnoddau Dynol wedi dweud nad oedd unrhyw gynlluniau i newid y cynllun presennol ar hyn o bryd.<br><br>Cydnabu RG mai Adnoddau Dynol fyddai yn y sefyllfa orau i ymateb i gwestiynau ar bolisi, fodd bynnag, gan fod y gyllideb yn seiliedig ar arbedion ariannol, gellir ailystyried sut y defnyddir y gyllideb. | |
| 7.3 | <u>TGAC</u> | |
| 7.4 | Adroddodd RG orwariant o £665,000 yn erbyn y gyllideb gyfun yn 2019/20. Adenillwyd y gorwariant hwn gan Ysgolion Cynradd ac Uwchradd gan ddefnyddio'r fformiwla ADY wedi'i bwysoli i nifer y disgyblion ar gyfer pob ysgol. Nid yw Ysgolion Arbennig yn cael eu cynnwys yn yr adfachiad am nad ydynt yn cael budd o'r gyllideb TGAC gyfun.<br><br>Bydd y gyllideb gyfun, a ostyngwyd i £1,400,000 ar gyfer 2020/21 (wedi'i lleihau fel na fyddai'n effeithio ar y fformiwla ADY) yn parhau'n annigonol i ateb y galw yn ystod y flwyddyn am y TGAC yn 2020/21, oni bai bod nifer y disgyblion ag Anghenion Cymhleth yn lleihau neu fod swm yr arian ar gyfer pob Gwelliant Anghenion Cymhleth yn cael ei adolygu a'i leihau. | |
| 7.5 | <u>CGG</u> | |
| 7.6 | Tynnodd RG sylw at ddiffyg hanesyddol y CGG, gyda £500,000 yn cael ei adfachu yn 2018/19 a 2019/20. Cariwyd llai ymlaen i 2020/21 sef £499,000 (£796,000 yn 2019/20).<br><br>O'i gymharu ag adroddiadau blaenorol, mae'r tanwariant a amcanestynnir wedi gostwng a gall fod yn gysylltiedig â chyflwyno hawliadau ychwanegol yn hwyr i'r CGG, heb fawr o ddiweddariadau na hawliadau yn ystod tri chwarter cyntaf 2019/20.<br><br>Er mwyn sicrhau bod y gronfa'n cael ei monitro'n gywir, byddai angen sicrhau bod pob ysgol yn diweddaru eu ffurflenni hawlio'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.<br><br>Er mwyn lleihau'r atebolrwydd ymhellach, byddai angen tanwariant cyffredinol yn erbyn y gronfa yn 2020/21. Mae pandemig COVID 19 yn ychwanegu ansicrwydd ynghylch a fyddai hyn yn digwydd. Gydag ysgolion ar gau, dylid lleihau'r defnydd o staff asiantaeth, ond efallai y bydd lefelau uwch o absenoldeb hefyd pan fydd ysgolion yn dychwelyd, a allai arwain at gynnydd cyfatebol yn y gwariant ar staff asiantaeth. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro'n ofalus ac os bydd angen, gellir ystyried adfachu pellach. Ystyrir y posibilrwydd o gael arian gan LlC ar gyfer colledion sydd o ganlyniad i'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | pandemig. | |
| 8 | **Unrhyw Fater Arall** | |
| 8.1 | Dim wedi'u trafod. | |
| 9 | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau. | |

UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

# Fforwm Cyllideb Ysgolion

10 Mehefin 2020



# Gwariant Adnewyddu Asedau 2019/20

- Mae'r tabl isod yn nodi lefelau cyffredinol y gwariant yn erbyn cyllidebau ar draws Ffrydiau Adnewyddu Asedau.

| Categori | Cyllideb £'000 | Grant LlC £'000 | Cyfanswm yr Arian £'000 | Alldro £'000 | Amrywiad £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwr Asedau | 6,883 | 4,130 | 11,013 | 6,618 | (4,395) |
| ADY | 1,500 | 0 | 1,500 | 758 | (742) |
| Addasrwydd | 1,040 | 0 | 1,040 | 985 | (55) |
| Yr Eglwys Newydd | 1,322 | 0 | 1,322 | 128 | (1,194) |
| **Cyfanswm** | **10,745** | **4,130** | **14,875** | **8,489** | **(6,289)** |

- Mae'r holl amrywiannau a amlinellir uchod wedi'u symud i 2020/21 ac eithrio'r llinell Cyflwr Asedau sydd wedi'i hail-broffilio dros y tymor canolig er mwyn adlewyrchu'n well y lefelau gwariant presennol.

# Cyllideb Adnewyddu Asedau 2020/21

| CRYNODEB O GYLLIDEBAU | Cyllideb £'000 |
|---|---|
| Cyflwr Asedau* | 4,101 |
| ADY | 1,500 |
| Addasrwydd | 1,095 |
| Yr Eglwys Newydd | 1,194 |
| **Cyfanswm Adnewyddu Asedau** | **7,890** |

*Mae Cyflwr Asedau yn cynnwys Grant Tybiedig o £3 miliwn gan LlC yn unol â blynyddoedd blaenorol. Dan yr amgylchiadau presennol efallai na fydd hwn ar gael. Bydd arian Buddsoddi i Arbed yn y Dyfodol ar gael i barhau â'r rhaglen waith arfaethedig os na ddyfernir grant.

# Dull Diwygiedig o Adnewyddu Asedau 2020/21

- Defnyddiwyd gwybodaeth Addasrwydd, Iechyd a Diogelwch ac Arolwg Cyflwr i lunio Rhaglen Waith Flynyddol ar gyfer 20/21.

- Cam 1
  - Dim ond gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio blaenoriaeth 1a (ADY a digonolrwydd yn bennaf)
  - Parhau â'r ymrwymiadau Statudol o ran gwaith profi ac atgyweirio (h.y. profi larymau tân a nwy bob 6 mis)
  - Gwiriadau Legionella cyn i ysgolion agor
  - Clirio ôl-groniad o ymrwymiadau statudol ar sail risg cyn i ysgolion agor
  - Gofynion capasiti brys yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru
- Cam 2
  - Mae rhaglen 20/21 yn cynnwys gwaith addasrwydd a chyflwr â blaenoriaeth
  - Mae'r targed ar gyfer rhaglen 20/21 yn uwch na'r gyllideb, ond bydd gwaith cyfyngedig yn ystod yr haf
  - Caiff gwaith a gariwyd ymlaen o 19/20 ei gynnwys yn rhaglen 20/21

- Gwneir gwaith arolygu a dylunio yn 2020/21 hefyd
- Peidio â chyfeirio at ôl-groniad cyflwr mwyach ond gwaith â blaenoriaeth yn lle

# Effaith COVID-19

- Blaenoriaeth 1a
  - 77 o gynlluniau wedi'u nodi (mae'r rhain yn cynnwys projectau a ohiriwyd oherwydd y cyfnod cloi) - tua £9.6m
  - I'w gwneud yn ystod yr haf
- Blaenoriaeth 1b
  - 90 o gynlluniau wedi'u nodi (dros dro) - tua £11m
  - I'w gwneud cyn gynted ag y bydd yn ymarferol
- Blaenoriaeth 1c
  - 85 o gynlluniau wedi'u nodi (dros dro) - tua £7.9
  - I'w gwneud cyn gynted ag y bydd yn ymarferol



# Cynlluniau Blaenoriaeth 1a 2020/21

- Mae pob cynllun wedi'i gategoreiddio yn unol â'r dyraniadau ariannol canlynol:
  - ADY/Addasrwydd - 33 (tua £8m)
  - DDA - 6 (tua £200k)
  - Diogelu - 21 (tua £300k)
  - Cyflwr - 14 (tua £1m)

# Profion ac Ymrwymiadau Statudol

| Categori Gwariant | Amcangyfrif o Wariant 20/21 £'000 |
|---|---|
| Prawf Trydanol Gwifren Sefydlog 5 mlynedd (pob blwyddyn ar gyfer pyllau nofio) | 99 |
| Prawf Nwy Blynyddol (yn cynnwys boeleri ac ystafelloedd pwnc arbenigol | 98 |
| Prawf Legionella ac Asesiadau Legionella bob blwyddyn/bob 6 mis | 89 |
| Glanhau Dwyllethau Echdynnu Ceginau Masnachol Ysgolion yn flynyddol | 42 |
| **Cyfanswm** | **330** |

# Arolwg y Gronfa Hapddigwyddiadau

- Dechreuodd arolwg ar ddewisiadau i’r dyfodol ar gyfer y gronfa hapddigwyddiadau ym mis Chwefror 2020.
- Gwahoddwyd 106 o ysgolion Cynradd/Arbennig/Meithrin i ymateb
- Mae'r ymatebion a gafwyd hyd yma fel a ganlyn:

| Dewis | Disgrifiad | Nifer yr Ymatebion |
|---|---|---|
| 1 | Terfynu'r Gronfa Hapddigwyddiadau | 22 |
| 2 | Symud at ddull symlach a lywodraethir gan y CCD | 10 |
| 3 | Cynnal y trefniadau presennol | 13 |
| Cyfan swm | | 45 |

- Gofynnir i ysgolion nad ydynt wedi ymateb wneud hynny cyn gynted â phosibl



# Un Drws Ffrynt (UDFf)

Mae UDFf yn cynnig pwynt cyswllt sengl i ysgolion wneud, olrhain a diweddaru ceisiadau am waith yn eu hadeiladau.


Rhaid i ysgolion ddefnyddio'r cyfleuster hwn i roi gwybod i'r Cyngor am yr holl waith arfaethedig yn eu hadeiladau.

Gellir defnyddio'r UDFf hefyd yn borthol i godi, olrhain a diweddaru ceisiadau am waith Brys yn ogystal â defnyddio'r rhif ffôn brys presennol ar gyfer y Gwasanaethau Adeiladau.

| **Caniatâd Landlordiaid UDFf 2019/20** | |
|---|---|
| **Math o Docyn** | **Nifer y Tocynnau** |
| Dim angen caniatâd | 945 |
| Angen caniatâd | 657 |
| **Cyfanswm** | **1602** |

| **Nifer yr ysgolion a ddefnyddiwyd UDFf yn 19/20** | **127** |
|---|---|
| Nifer yr ysgolion sy’n defnyddio UDFf yn aml | 112 |
| Nifer yr ysgol nad ydynt yn defnyddio UDFf | 15 |

# Arolygon Cyflwr Ysgolion



Cardiff Council
2017 - 2019 Schools Property Condition Surveys

SCHOOL NAME
Council Responsibility

| ELEMENT TYPE | BLOCK | ROOM | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ELECTRICAL SERVICES | | | | | | | |
| ELECTRICAL DISTRIBUTION BOARD | 1 | G05 | ✓ | | | | |
| | 4 | G66 | ✓ | | | | |
| EMERGENCY LIGHTING FIXTURES AND FITTINGS | 1 | THROUGHOUT GROUND FLOOR | | | | ✓ | |
| | 2 | THROUGHOUT GROUND FLOOR | ✓ | | | | |
| FIRE ALARM WIRING & ACCESSORIES | [illegible] | THROUGHOUT FIRST FLOOR | | | | ✓ | |
| | 3 | THROUGHOUT GROUND FLOOR | | ✓ | | | |
| | 4 | THROUGHOUT GROUND FLOOR | | ✓ | | | |
| GENERAL LIGHTING FIXTURES AND FITTINGS | 1 | G10 | | | | ✓ | |
| | 1 | G11 | | | | ✓ | |
| | [illegible] | THROUGHOUT GROUND FLOOR | | | ✓ | | |
| INTRUDER ALARM | [illegible] | G05 | | | ✓ | | |
| LIGHTING WIRING | 1 | [illegible] | | | | ✓ | |
| | 1 | [illegible] | | | | ✓ | |
| LIGHTNING PROTECTION | 1 | [illegible] | | | | ✓ | |
| POWER SUPPLY BUSBAR | 2 | G05 | ✓ | | | | |
| SMALL POWER WIRING & ACCESSORIES | 1 | THROUGHOUT FIRST FLOOR | | ✓ | | | |
| | 1 | THROUGHOUT GROUND FLOOR | | | | ✓ | |
| | 4 | THROUGHOUT GROUND FLOOR | ✓ | | | | |
| EXTERNAL WALLS, WINDOWS & DOORS | | | | | | | |
| EXTERNAL UPVC CLAD | 3 | EXTERNAL | | | | ✓ | |
| INTERNAL WALLS, WINDOWS & DOORS | | | | | | | |
| INTERNAL WALLS | 4 | G66 | ✓ | | | | |
| | 4 | G68 | ✓ | | | | |
| MECHANICAL SERVICES | | | | | | | |
| HEAT PUMP | 2 | B01 | | | | ✓ | |
| | 2 | G44 | | | ✓ | ✓ | |
| HEATING BOILER | 2 | G44 | ✓ | | | | |
| RADIATOR | 1 | THROUGHOUT FIRST FLOOR | ✓ | | | | |
| ROOFS | | | | | | | |
| ROOF COVERING | 3 | EXTERNAL | | | | ✓ | |
| SANITARY SERVICES | | | | | | | |
| TOILET CUBICLE | 2 | G46 | | | | ✓ | |
| WC SUITE | 2 | G46 | | ✓ | | | |

EXAMPLE
Page 1

Cyn y cyfnod cloi, byddai ysgolion wedi derbyn enghraifft o wybodaeth yr arolwg cyflwr sydd wedi'i rhannu gan barti cyfrifol h.y. Ysgol neu Gyngor yn unol â'r 'Llawlyfr Adeiladau Ysgolion'.

Paratowyd gwybodaeth benodol am gyflwr ar gyfer pob ysgol i helpu i gynllunio gwaith a rheoli adeiladau.  Bydd y wybodaeth hefyd yn nodi gwaith y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud dros gyfnod o 5 mlynedd.

Bydd swyddogion yn trefnu cyfarfodydd i rannu'r wybodaeth hon unwaith y bydd cyfyngiadau y cyfnod cloi wedi'u llacio digon.

Cynhelir cyfarfod ar wahân hefyd i gynorthwyo ysgolion i baratoi cynllun cynnal a chadw ataliol blynyddol.



UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD

# Y camau nesaf…

- Cronfa Hapddigwyddiadau - canlyniadau'r arolwg a'r camau nesaf
- Ymateb Brys a Gwaith Brys
- Cynlluniau arbed Ynni LED a Solar PV
- Adolygu'r Llawlyfr Adeiladau Ysgolion

UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

# Effaith Ariannol COVID 19
# Fforwm Cyllideb Ysgolion
# 10 Mehefin 2020



Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, working together

CARDIFF
CAERDYDD

# Cynnwys


1. Effaith Ariannol ar y Cyngor
2. Arian sydd ar gael gan LlC
3. Effaith ar y Gyfarwyddiaeth Addysg
4. Effaith ar Ysgolion
5. Y Cam Nesaf

# 1. Effaith Ariannol ar y Cyngor

- Ers mis Mawrth 2020, mae argyfwng COVID 19 wedi cael effaith sylweddol ac andwyol ar gyllid y Cyngor.
- Mae hyn wedi arwain at lawer mwy o wariant, ynghyd â llawer llai o incwm.
- Yr effaith gyfredol a ragwelir yw gwariant ychwanegol o £18.4m tan ddiwedd mis Mehefin 2020 a cholli £11.4m mewn incwm yn ystod yr un cyfnod.
- Mae enghreifftiau o wariant ychwanegol yn cynnwys Cyfarpar Diogelu Personol, Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (gan gynnwys cymorth i ddarparwyr), prydau ysgol am ddim a chymorth i'r digartref.
- Mae enghreifftiau o incwm a gollwyd yn cynnwys parcio, lleoliadau, gwastraff masnach a phrydau ysgol.
- Mae hyn yn amlwg yn cyflwyno perygl i wydnwch ariannol, ond hefyd wedi gofyn am reolaeth ofalus o ran llif arian.
- Mae'r ffigurau uchod ond yn adlewyrchu'r effaith hyd at ddiwedd mis Mehefin 2020, ond bydd yr effaith yn para ar ôl y dyddiad hwn.

# 1. Effaith Ariannol ar y Cyngor - parhad

- Mae'r Cyngor wedi gorfod cydlynu'r ffordd y rhoddir cymorth i fusnesau a chymryd rhan mewn gweithgareddau rhanbarthol eraill (e.e. sefydlu Ysbyty Calon y Ddraig).
- Roedd angen ystyried sefyllfa'r Cyngor o ran rhoi staff ar ffyrlo a chrymryd rhan yn y Cynllun Cadw Swyddi tra'n ystyried rhoi cymorth ariannol i gyflenwyr y barnwyd eu bod mewn perygl hefyd.
- Mae'r Cyngor yn adolygu'r sefyllfa ariannol yn barhaus ac yn diweddaru rhagdybiaethau pan geir gwybodaeth newydd neu pan wneir cyhoeddiadau gan y llywodraeth.
- Wrth i'r Cyngor ddechrau'r camau ailgychwyn/adfer/adnewyddu, bydd angen iddo ystyried goblygiadau ariannol yn ofalus, o ran yr effaith fyrdymor a thymor canolig, yn enwedig o ran strategaeth y gyllideb.
- Bydd y Cabinet yn ystyried adroddiad ar yr effaith ariannol ddydd Iau 11 Mehefin 2020.

## 2. Arian sydd ar gael gan LlC

- Mae wedi bod angen i'r Cyngor roi gwybodaeth i LlC, mewn nifer o fformatau, yn amlinellu'r effaith ariannol bosibl.
- Yn rhannol oherwydd hyn, mae LlC wedi sicrhau bod arian ar gael i awdurdodau lleol roi cymorth ariannol yn ystod yr argyfwng.
- Mae gan Gronfa Galedi LlC, fel y'i gelwir, £110m, sy'n cynnwys symiau penodol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (£40m) a Phrydau Ysgol am Ddim (£40m), yn ogystal â chymorth mwy cyffredinol (£30m), y neulltir £10m ohono ar gyfer digartrefedd.
- Hefyd, cadarnhawyd erbyn hyn y bydd £78.1m ar gael ar gyfer y cymhorthdal incwm, er nid yw'r manylion o ran sut y manteisir ar hwn ar gael eto.
- Mae gwariant ychwanegol wrthi'n cael ei hawlio bob mis (ar gyfer gwariant yr aethpwyd iddo), er dim ond tan ddiwedd mis Mehefin y mae'r cymorth hwn ar gael (diwedd mis Awst ar gyfer PYADd)
- Hyd yma mae'r Cyngor wedi hawlio ychydig llai na £6m, gydag elfen fawr yn ymwneud â chyfarpar diogelu personol.

# 3. Effaith ar y Gyfarwyddiaeth Addysg

- Mae'r effaith ariannol fwyaf sylweddol ar y gyfarwyddiaeth Addysg wedi bod mewn perthynas â'r ffordd newydd o ddarparu prydau ysgol am ddim.
- Yn gyntaf, fe'u darparwyd ar ffurf pecynnau bwyd, ond yna rhoddwyd talebau cyn symud ymlaen i daliadau uniongyrchol i deuluoedd trwy ParentPay.
- Yn ogystal â hyn, mae'r gyfarwyddiaeth wedi gorfod cefnogi parhad dysgu disgyblion, yn enwedig y rhai a ddosberthir yn rhai sy'n ddigidol ddifreintiedig, sydd wedi arwain at gyflymu'r rhaglen EdTech a phrynu swm sylweddol o ddyfeisiau symudol a band eang.
- Hefyd, mae'r gyfarwyddiaeth yn colli swm sylweddol o incwm ar hyn o bryd trwy ei gwasanaethau a fasnachir (Arlwyo, y Gwasanaeth Cerdd a Gweithgareddau Awyr Agored) tra nad yw'r gwasanaethau hyn yn gweithredu fel arfer.
- Arbedwyd arian yn yr adran Trafnidiaeth Ysgol gan nad yw llawer o ddarparwyr wedi gorfod cludo disgyblion, ond mae'n debygol y bydd hyn yn newid ar ôl i'r ysgolion ddychwelyd.

# 4. Effaith ar Ysgolion

- Yn ystod y cyfnod cloi cyntaf, mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi bod ar gau ond mae rhai wedi bod yn gweithredu fel ysgolion hyb, gan sicrhau darpariaeth i blant gweithwyr allweddol.
- Mae ysgolion wedi bod yn rhoi gwybod am unrhyw wariant ychwanegol ac mae hwn wedi'i ychwanegu at yr hawliau y mae'r Cyngor wedi bod yn eu gwneud i LIC.
- Mae enghreifftiau'n cynnwys oriau ychwanegol a weithiwyd dros y gwyliau gan staff nad ydynt yn addysgu, costau cyfarpar diogelu personol/glanhau ychwanegol a chost adnoddau/darpariaethau ychwanegol.
- Yn gyffredinol, mae lefel y gost ychwanegol y rhoddir gwybod amdani'n gymharol isel, sydd yn unol â'r sefyllfa y rhoddir gwybod amdani mewn nifer o'r awdurdodau lleol eraill.
- Rhaid aros i weld faint o arian a arbedwyd yn ystod y cyfnod yr oedd yr ysgolion ar gau.
- Mae nifer o ysgolion wedi colli swm sylweddol o incwm, yn benodol yr ysgolion hynny sy'n cyflawni eu swyddogaeth arlwyo eu hunain.
- Y bwriad yw casglu'r holl wybodaeth berthnasol a'i chynnwys yn hawliad y Cyngor i LIC

# 5. Y Cam Nesaf

- Yn dilyn cyhoeddiad yr wythnos ddiwethaf, gwyddom y bydd pob ysgol yn ailagor o ddydd Llun 29 Mehefin 2020.
- Daw effaith ariannol hyn i'r amlwg dros yr wythnosau i ddod, ond mae eisoes yn glir y bydd angen newid cynlluniau adeiladau ysgolion ac y bydd angen cyfarpar diogelu personol a threfnau glanhau gwell.
- Fel y nodwyd eisoes, mae'n debygol y bydd effaith sylweddol ar drafnidiaeth ysgol, gyda llai o gapasiti ar drafnidiaeth a'r angen i gadw at amseroedd dechrau gwahanol, er enghraifft, yn cyflwyno heriau ariannol sylweddol.
- Er y bydd yr ysgolion yn ailagor, mae'n debygol y bydd angen i'r ddarpariaeth PYADd gyfredol barhau. Er bod arian ar gael, rhaid aros i weld a fydd hwn yn ddigon i dalu'r gostau yr eir iddynt.
- Bydd y gallu i gael arian gan LlC yn parhau'n her sylweddol ac mae'n debygol y bydd yr angen am yr arian hwn yn parhau ar ôl mis Mehefin 2020.